Archwilio Cymru
Audit Wales

# Darparu Prydau Ysgol Am Ddim yn ystod y Cyfyngiadau

Sut yr ymatebodd cynghorau i'r her yng ngwanwyn a haf 2020



Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, y mae pob un ohonynt yn endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Pam fod prydau ysgol am ddim yn bwysig a'r hyn a ganfuomd 4

Prydau ysgol yn ystod y cyfyngiadau – llinell amser 5

Cynghorau 7

Deilliannau a phwyntiau dysgu 10

# Pam fod prydau ysgol am ddim yn bwysig a'r hyn a ganfuom

## Yr hyn y chwiliom ni amdano a pham

Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd yr aeth cynghorau ati i ymateb i her parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau cenedlaethol yng ngwanwyn a haf 2020, tra'r oedd ysgolion ar gau ar gyfer dosbarthiadau arferol. Fe wnaethom y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect dysgu COVID. Ein nod oedd canfod sut y gwnaeth cynghorau addasu eu gwasanaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau, ac yn arbennig a oes unrhyw bwyntiau dysgu o ganlyniad i'r profiad hwn i gynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach.

## Pam fod prydau ysgol am ddim yn bwysig

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu'r ysgol yn llawn-amser, gan gynnwys plant iau sy'n mynychu'r ysgol feithrin am ddiwrnodau llawn yn ogystal â disgyblion ysgol chweched dosbarth. Mae llawer o deuluoedd a phobl ifanc yn dibynnu ar ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i helpu i sicrhau bod gan ddisgyblion ffynhonnell reolaidd o ran bwyd maethlon ac mae'n wasanaeth allweddol sy'n cyfrannu at leihau tlodi plant.

Pan gaeodd ysgolion ar gyfer dosbarthiadau arferol ar 18 Mawrth 2020 roedd cynghorau a Llywodraeth Cymru yn wynebu her logistaidd sylweddol i gynnal darpariaeth prydau ysgol am ddim trwy ffyrdd gwahanol o ddarparu'r gwasanaeth.

£ **18%**

**o ddisgyblion yn gymwys am Brydau Ysgol Am Ddim ym mlwyddyn academaidd 2019-20**

£ **77%**

**wnaeth hawlio prydau ysgol am ddim**

£ **Swm y ddarpariaeth a ddewiswyd gan bob cyngor – ee yng Nghaerdydd roedd yn £2.50 y pryd mewn Ysgolion Cynradd a £2.95 y pryd mewn Ysgolion Uwchradd yn 2019-20**

# Prydau ysgol yn ystod y cyfyngiadau – llinell amser

## Caeodd ysgolion ar gyfer gweithrediadau arferol ar 18 Mawrth

**Mawrth**

- fe wynebodd cynghorau a Llywodraeth Cymru galw sylweddol i barhau â'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim.

## Fe ymatebodd Llywodraeth Cymru gyda chyllid a chanllawiau

**Mawrth**

- trefnwyd yn wreiddiol fod £7 miliwn ar gael i gynghorau i ddarparu trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim.

**Ebrill**

- neilltuwyd £33 miliwn pellach i gynghorau i barhau â'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim nes i ysgolion ail-agor neu hyd at ddiwedd mis Awst 2020 gan gynnwys darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol o wyliau'r Pasg ymlaen.
- rhoddwyd ystyriaeth i gyflwyno cynllun talebau prydau ysgol am ddim ond penderfynwyd yn erbyn hynny.
- roedd canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020 yn awgrymu tri opsiwn ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim
  - talebau
  - danfon bwyd at deuluoedd; neu
  - drosglwyddo arian yn uniongyrchol i mewn i gyfrifon banc rhieni/gofalwyr.
- er eu bod yn awgrymu tri opsiwn, roedd y canllawiau'n cydnabod ei bod yn bosibl bod opsiynau eraill y byddai cynghorau'n teimlo y byddent yn gweithio'n well yn lleol
- roedd y canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau trefniadau priodol ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ac roeddent felly'n cynghori yn erbyn 'cynlluniau casglu a mynd'.

**Gwario**

£7m

+£33m

**Ebrill**

- cafodd y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim ei hestyn i ddisgyblion cymwys ym mlynyddoedd 11 a 13 trwy gydol y gwyliau ysgol – fel arfer ni fyddent yn cael prydau ysgol am ddim ar ôl mis Mehefin
- pennwyd cyfradd o £3.90 y dydd / £19.50 yr wythnos ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru tra'r oedd ysgolion ar gau – mwy nag mewn cyfnod arferol a mwy na'r symiau a oedd yn cael eu darparu yng ngwledydd eraill y DU.
  - **Lloegr**: roedd taleb archfarchnad o £15.00 yn cael ei ddarparu bob wythnos ar gyfer pob plentyn.
  - **Gogledd Iwerddon**: roedd £27.00 y pythefnos y plentyn yn cael ei dalu
  - **Yr Alban**: fe bennodd cynghorau eu trefniadau eu hunain ond roedd gwerth y ddarpariaeth fesul plentyn yn llai ar y cyfan na'r ddarpariaeth gan gynghorau Cymru


**Medi**

- cyhoeddwyd canllawiau pellach ynghylch darparu prydau ysgol yn ystod yr achos o'r coronafeirws (COVID-19) ac fe gyhoeddwyd £420,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer disgyblion a oedd yn hunan-ynysu neu'n gwarchod. **+£0.4m**
- trefnwyd fod £1.28 miliwn ar gael i awdurdodau lleol er mwyn ariannu costau prydau ysgol am ddim ychwanegol a ysgwyddwyd yn ystod pythefnos cyntaf tymor yr hydref. **+£1.28m**

**Hydref**

- ym mis Hydref 2020 cyhoeddwyd darpariaeth bellach o ran prydau ysgol am ddim ar gyfer yr holl wyliau ysgol hyd at a chan gynnwys Past 2021 gydag £11 miliwn o gyllid ychwanegol yn cael ei gyhoeddi. **+£11m**
- ar y cyfan, a chan gynnwys y cyllid a nodir uchod, trefnodd Llywodraeth Cymru fod oddeutu £52 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim hyd at ddiwedd gwyliau'r Pasg 2021. **=£52m**

# Cynghorau



ymateb yn gyflym a gweithio'n galed i ddod o hyd i ffyrdd o barhau i ddarparu **prydau ysgol am ddim**



cyflwyno mesurau dros dro megis bagiau cinio '**casglu a mynd**', ac fe wnaeth ychydig o gynghorau roi opsiwn i gasglu pryd twym hefyd



danfon '**bagiau casglu a mynd**' at drothwy'r drws i gefnogi'r teuluoedd hynny a oedd yn '**gwarchod**'

## Rhai heriau ymarferol o ddulliau cychwynnol cynghorau



Daeth bwydlen y bag cinio 'casglu a mynd' yn llai apelgar i ddefnyddwyr gwasanaethau, gan olygu cyfradd hawlio gymharol isel.

- roedd opsiynau casglu'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau o deuluoedd adael eu cartref i gasglu bwyd pan oedd cyfyngiadau teithio yn eu lle oherwydd y pandemig;
- roedd dylunio llwybr danfon bwyd i gartrefi disgyblion yn gymhleth ac roedd yn cynnwys ymwneud gan lawer o swyddogion y cyngor a gwirfoddolwyr;
- roedd anawsterau o ran cadw bwyd yn ffres wrth ddefnyddio gwasanaeth danfon i gartrefi;
- nifer y cerbydau yr oedd eu hangen i ddanfon bwyd i gartrefi gan gynnal safonau hylendid bwyd ar yr un pryd; ac
- roedd casglu cinio pecyn neu wasanaeth danfon i gartrefi'n creu dibyniaeth ar system a allai fethu pe bai ei gweithlu'n mynd yn sâl.

## Newidiodd yr holl gynghorau eu darpariaeth o leiaf unwaith ers y cyfyngiadau cychwynnol

Ar ôl cael rhagor o amser i gynllunio, a dysgu o brofiad, erbyn diwedd mis Mehefin 2020:

**12 cyngor**
taliad wythnosol uniongyrchol £19.50 i gyfrif banc rhieni/gofalwyr

**3 cyngor**
2 opsiwn: taliad uniongyrchol i gyfrif banc neu daleb bwyd

**2 cyngor**
darparu talebau bwyd

**2 cyngor**
darparu parseli bwyd / prydau wedi'u rhewi yn wythnosol

**1 cyngor**
2 opsiwn: taliad uniongyrchol i gyfrif banc neu fagiau casglu a mynd

**1 cyngor**
3 opsiwn: 'Parent Pay', taleb bwyd neu barsel bwyd

**1 cyngor**
2 opsiwn: taliad uniongyrchol i gyfrif banc neu barsel bwyd

## Ffyrdd o weithio – sut yr aeth cynghorau ati i ymateb i'r her

### Gweithio mewn partneriaeth

roedd enghreifftiau'n cynnwys gweithio gydag elusen genedlaethol i roi cymorth i ddanfon taliadau mewn arian parod i geiswyr lloches a oedd heb gyfrifon banc, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth gyda chyflenwyr lleol allweddol i ddarparu prydau a oedd yn gytbwys o safbwynt maethol.

### Helpu i ddiogelu plant agored i niwed


gwasanaethau wedi'u targedu megis danfon parseli bwyd at deuluoedd agored i niwed, ac fe wnaeth hyn helpu staff gofal cymdeithasol i gadw mewn cysylltiad â disgyblion agored i niwed a'u teuluoedd hefyd.

### Teilwra datrysiadau ar gyfer cymunedau lleol

er enghraifft gweithio gydag archfarchnad leol i'w gwneud yn bosibl defnyddio talebau am ei bod yn haws i'r gymuned leol gael mynediad ati o'i gymharu â chadwyni cenedlaethol eraill.







### Defnyddio adnoddau'n wahanol

er enghraifft defnyddio contractwyr cludiant i'r ysgol i ddanfon prydau bwyd mewn tacsis a bysiau mini nad oedd mo'u hangen mwyach i drosglwyddo disgyblion.

### Rheoli gweithrediadau logistaidd

er enghraifft danfon parseli bwyd at filoedd o blant bob wythnos.

### Making use of IT systems

er enghraifft i'w gwneud yn haws anfon taliadau at deuluoedd cymwys.

# Deilliannau a phwyntiau dysgu

## Cynyddodd y gyfradd hawlio prydau ysgol ac roedd cynghorau'n teimlo'u bod mewn sefyllfa well pe bai ysgolion yn cau yn y dyfodol




Ym Mis Mehefin, dywedodd y rhan fwyaf o gynghorau fod cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion prydau ysgol am ddim yn ystod pandemig COVID-19.



Roedd cyfradd hawlio prydau ysgol am ddim yn amrywio o 85% i 100%, cynnydd o ffigwr cenedlaethol o 77% cyn COVID.



Fe ymatebodd 17 o gynghorau i'n cais am wybodaeth ac fe ddwedon nhw wrthym ym mis Mehefin eu bod yn hyderus, pe bai ysgolion yn cau eto, eu bod bellach mewn sefyllfa well i gynnal darpariaeth prydau ysgol am ddim.




Mae trefniadau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn dal i gael eu profi gyda'r cyfnod atal byr a ddigwyddodd ym mis Hydref/Tachwedd 2020 ac achosion parhaus o ddisgyblion yn gorfod hunan-ynysu.

## Dysgu ac addasu – gwersi i wasanaethau cyhoeddus eraill?

### Enghraifft dda o ddysgu ailadroddol ac ymateb i adborth?

Fe ymatebodd cynghorau'n gyflym pan gaeodd ysgolion ar gyfer gweithrediadau arferol ym mis Mawrth, ac yna fe newidion nhw eu darpariaeth wrth iddynt ddysgu o brofiad, a/neu gael rhagor o amser i ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer eu cymunedau.

### Gallu newid yn gyflym?

Dangosodd cynghorau a phartneriaid eraill eu gallu i newid yn gyflym pan oedd angen iddynt. A oes gwersi i wasanaethau a sefydliadau eraill yn ystod y pandemig ac wedyn?

### Nid dim ond mater o fod â 'threfniadau' da yw newid yn gyflym?

Roedd angen gweithlu addasadwy ar gyfer hyn. Mae llawer o staff trwy gydol y pandemig wedi cael eu hadleoli i rolau newydd. Rydym wedi clywed hefyd am bwysigrwydd ewyllys da a pharodrwydd staff i fynd y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl ganddynt yn eu swydd-ddisgrifiadau neu delerau cyflogaeth. Clywsom hefyd am gynghorwyr yn helpu i ddosbarthu parseli bwyd.

### Pwysigrwydd partneriaid a meddwl yn wahanol?

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn un o'r themâu allweddol a chyson o ran darparu prydau ysgol am ddim mewn ffordd arall. Fe ymgysylltodd rhai cynghorau â'r trydydd sector a'r sector preifat i ddarparu gwasanaeth prydau ysgol am ddim. Bu cynghorau'n ystwyth hefyd o ran adnabod partneriaid newydd a gallu canfod cyfleoedd ar gyfer manteision lluosog trwy wneud pethau'n wahanol a/neu mewn partneriaeth gydag eraill.

### Diweddaru manylion cyswllt yn gyson?

Mae'r pwynt dysgu hwn yn ymddangos yn syml, ond mae'n enghraifft dda o'r modd y gall manylion a phrosesau syml wneud gwahaniaeth mawr pan fo systemau'n cael eu rhoi dan bwysau. Dywedodd cwpl o gynghorau wrthym, pan oedd angen iddynt gysylltu â theuluoedd disgyblion a oedd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gyflym i drefnu darpariaeth arall ar ôl i ysgolion gau, eu bod weithiau wedi cael nad oedd manylion cyswllt yn gyfredol.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru